Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Genus Education

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/06/2015**

## Cyd-destun

Mae Genus Education wedi ei chofrestru'n ysgol annibynnol i ddarparu addysg fewnol i blant sy'n byw yn nhri chartref y cwmni i blant nad ydynt yn gallu manteisio ar addysg brif ffrwd. Mae gan bob cartref ei ystafelloedd dosbarth ei hun.

Agorodd yr ysgol yn gyntaf yn Chwefror 2011, gan weithredu ar safle Ynys-y-bwt yn unig. Sefydlodd y cwmni ystafell ddosbarth yn Knowle House yn 2012 ac un arall yn Station Cottage yn 2013.

Mae Pennaeth Addysg yn goruchwylio'r addysg ar draws y tri safle. Mae'r safleoedd yn rhannu dogfennau cyffredin sy'n cynnwys polisïau ysgol, cynllun datblygu a threfniadau ar gyfer asesu, cynllunio a chyflwyno gwersi. Mae gan bob ystafell ddosbarth athro/athrawes amser llawn.

Mae'r ysgol yn cynnig addysg amser llawn ac yn dilyn amseroedd tymhorau'r awdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Mae cryfderau'r ysgol fel a ganlyn:**

- Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u hanghenion dysgu unigol
- Mae disgyblion yn cyflawni medrau personol a chymdeithasol gwell
- Mae'r ysgol yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol sydd wedi ei chynllunio'n dda ac sydd wedi ei theilwra ar gyfer anghenion, galluoedd a diddordebau disgyblion unigol
- Mae'r ysgol yn meithrin partneriaethau effeithiol ag ystod o bartneriaid sy'n darparu profiad gwaith a phrofiadau dysgu cymdeithasol gwerthfawr i ddisgyblion
- Mae staff addysg a gofal yn gweithio'n dda fel tîm ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran presenoldeb, ymddygiad a chynnydd disgyblion

### Meysydd i'w datblygu

**Mae meysydd yr ysgol i'w datblygu fel a ganlyn:**

- Nid yw prosesau hunanarfarnu yn canolbwyntio'n ddigon da ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni
- Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n dod â chanfyddiadau'r broses sicrhau ansawdd at ei gilydd yn ddigon manwl; nid yw'n defnyddio tystiolaeth gan yr holl brif randdeiliaid
- Nid yw trefniadau ar gyfer asesu medrau darllen a deall disgyblion wedi eu datblygu'n ddigonol

**Argymhellion**

Dylai'r ysgol:

A1 Sicrhau bod trefniadau priodol i ddatblygu medrau darllen a deall disgyblion
A2 Gwella arsylwi gwersi i ddarparu ffocws craffach ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn gwersi
A3 Gwella'r adroddiad hunanarfarnu i gynnwys arfarniadau penodol o ddata deilliannau, cynnydd disgyblion ac ansawdd addysgu
A4 Sicrhau bod hunanarfarnu'n defnyddio tystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid

## Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm a gwneud yn siŵr bod cyfleoedd ar gyfer cymhwyso'r medrau hyn yn cael eu cynllunio'n glir ac yn cynnwys targedau ar gyfer datblygu dealltwriaeth o ddarllen, medrau ysgrifennu a rhifedd lle bo'n berthnasol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae athrawon yn nodi cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn y rhan fwyaf o gynlluniau gwersi. Maent yn asesu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i osod targedau â her briodol. O ganlyniad, mae pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu'r medrau hyn. Fodd bynnag, nid oes gan yr asesiadau darllen a sillafu derfyn digon uchel. O ganlyniad, ni all staff ddadansoddi perfformiad disgyblion hŷn a mwy abl yn gywir. Nid yw athrawon yn canolbwyntio'n ddigon da ar asesu a datblygu medrau darllen a deall disgyblion.

Mae athrawon yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu mewn arddulliau gwahanol ac at ddibenion gwahanol, ac mae ganddynt ffocws priodol ar ddarllenadwyedd llawysgrifen disgyblion a'r defnydd cywir o atalnodi.

**Argymhelliad 2: Parhau i ddatblygu prosesau asesu trwy sicrhau bod marcio yn dangos yn gyson beth mae disgyblion yn ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae athrawon yn defnyddio asesiad gwaelodlin defnyddiol i nodi cryfderau ac anghenion dysgu unigol disgyblion wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio canlyniadau'r asesiadau hyn i greu cynlluniau addysg unigol manwl ac yn rhoi ymyriadau priodol ar waith i wella deilliannau i bob disgybl.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno polisi marcio sy'n cael ei gymhwyso'n gyson dda gan yr holl athrawon. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Maent yn gwneud sylwadau cadarnhaol sy'n nodi'r hyn y mae disgyblion wedi ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wella.

**Argymhelliad 3: Defnyddio'r wybodaeth o fonitro ansawdd ac asesu i ddatblygu proses drylwyr a rheolaidd ar gyfer hunanarfarnu ysgol gyfan**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu cylch o weithgareddau sicrhau ansawdd sydd wedi eu cynllunio'n dda i fonitro ac adolygu pob agwedd ar waith yr ysgol. Mae rheolwyr ac athrawon yn casglu tystiolaeth uniongyrchol trwy arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Fodd bynnag, mae llawer o weithgareddau sicrhau ansawdd, gan gynnwys arsylwi gwersi, yn rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon craff ar ddeilliannau disgyblion.

Mae arweinwyr wedi dechrau dod â chanfyddiadau hunanarfarnu at ei gilydd mewn adroddiad hunanarfarnu ysgol-gyfan. Mae'r adroddiad yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella sy'n gysylltiedig â safonau disgyblion, addysgu ac arweinyddiaeth. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n ddigon arfarnol. Nid yw'n darparu arfarniad cywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn darparu dadansoddiad manwl o bum maes blaenoriaeth i'w datblygu. Mae'r cynllun yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau'r gwelliannau arfaethedig, y staff sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol ac amserlenni priodol ar gyfer cyflawni pob cam gweithredu. Mae staff yn gwybod beth yw blaenoriaethau datblygu'r ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Genus Education |
| **Rhif yr ysgol** | 6726091 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 23/03/2015 |
| **Perchennog** | Mr Gareth Hemming<br>Mr Mark Khan |
| **Staff** | 3 athro. 1 Pennaeth Addysg. |
| **Nifer y disgyblion** | 4 |
| **Darpariaeth** | Preswyl 52 wythnos |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 01/04/2014 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Elizabeth Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |